

Un Llais Cymru – Penwythnos Carnifal Penarth

Mae Gŵyl Penarth a'i ddiwrnod Carnifal wedi bod yn ddigwyddiad blynyddol yn y dref am dros 50 o flynyddoedd.

Eleni, ac wedi gwrandao ar y gymuned, roedd Cyngor Tref Penarth yn awyddus i ledaenu ein digwyddiadau a rhoi cynnig ar bethau newydd – yn ein hymdrech i wella bywyd yn y dref.

Roeddem eisiau darparu cyfleoedd mwy cyffrous, hygyrch i bobl Penarth gymryd rhan ynddynt a chynnig mwy o gyfleoedd i bobl ymweld.

Dechreuodd y dathliadau ar Ddydd Sadwrn 8fed o Orffennaf gyda'r Derby Lawr Rhiw, ras cartiau cartref i lawr y rhiw. Yn y gorffennol yn rhan o'r Diwrnod Carnifal, daeth y digwyddiad rhyfedd yma yn ddiwrnod annibynnol ei hun, gan ddenu niferoedd record o gyfranogwyr a gwylwyr, ochr yn ochr â sylw gan newyddion cenedlaethol.

Roedd penwythnos y Carnifal ar y 14eg a 15fed o Orffennaf yn lledaenu gweithgareddau dros ddau ddiwrnod. Roedd hwyl nos Wener yn arddangos cerddoriaeth fyw ar y lan y môr, cyflwynwyd gan Bethan Elfyn o'r BBC â'r prif atyniad oedd sêr 'The Voice', 'Into The Ark', yn cael eu dilyn gan arddangosfa dân gwylt ysblennydd a lansiwyd o Bier Penarth.

Dechreuodd Dydd Sadwrn gydag arddangosfa gan Falcons yr Awyrlu, ac yna carnifal ar hyd glan y môr, gyda gŵyl plant ychwanegol ar ben hynny. Y canolbwynt heb os oedd sioe syrcas arbennig, gyda thrapîs enfawr wedi'i glymu i fyny ar ddiwedd y Pier a'r wifren gerdded uchel gyntaf yn y byd dros 200m o ddŵr i'r Pier.

Mynychodd miloedd y Derby Lawr Rhiw ac ymwelodd dros bum mil â dau ddiwrnod ein Penwythnos Carnifal.

Bydd golygfeydd megis wynebaw cyffrous yn rhuthro lawr y rhiw i gymeradwyaeth enfawr, dawnsio torfol ar lan y môr gyda chefnidir ysblennydd o dân gwylt a channoedd o blant yn mwynhau yn y Kymin yn byw yn hir yn y cof. Heb sôn am y bwrlwm am yr arddangosfa syrcas anhygoel ar y Pier a'r golygfeydd syfrdanol o'r wifren gerdded uchel gyntaf yn y byd dros 200m o ddŵr i'r Pier.

Dywedodd Maer y Dref, y Cynghorydd Ken Lloyd "Diolch o galon i'n partneriaid i gyd sydd wedi helpu i wneud yr ŵyl eleni mor arbennig. Roeddem eisiau trio syniadau newydd a chreu mwy o ddigwyddiadau i'r dref. Rhwng y Derby Lawr Rhiw a dau ddiwrnod y Penwythnos Carnifal, rydym wedi gweld golygfeydd anhygoel, ac mae llawer o hwyl wedi ei gael. Mwy na dim, diolch i bobl Penarth am gymryd rhan - Dyma'r bobl sy'n ei wneud yn lle arbennig i fyw."